

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid
Questions to the Finance Minister
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid Questions to the Finance Minister

Diwygio Fformiwla Barnett Reform of the Barnett Formula

Q11 Jenny Randerson: Has the Minister had any recent discussions on reforming the Barnett formula? OAQ0275(FIN)

C11 Jenny Randerson: A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau diweddar ar ddiwygio fformiwla Barnett? OAQ0275(FIN)

The Finance Minister (Sue Essex): I refer you to the answers I gave to OAQ217(FIN) during my previous finance questions in the Plenary meeting of 21 September 2005.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Fe'ch cyfeiraf at yr atebion a roddais i OAQ217(FIN) yn ystod fy nghwestiynau blaenorol ar gyllid yn y Cyfarfod Llawn ar 21 Medi 2005.

Prosiectau Menter Cyllid Preifat Private Finance Initiative Projects

Q12 The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German): Will the Minister make a statement on private finance initiative projects in Wales? OAQ0274(FIN)

C12 Arweinydd Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German): A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am brosiectau menter cyllid preifat yng Nghymru? OAQ0274(FIN)

Sue Essex: We are using the private finance initiative to take forward 11 local government PFI projects, three hospitals and a number of minor schemes undertaken by national health service trusts, the Bute Avenue and Callaghan Square project and the A55 dual carriageway across Anglesey.

Sue Essex: Yr ydym yn defnyddio'r fenter cyllid preifat i hyrwyddo 11 o brosiectau PFI sydd gan lywodraeth leol, tri ysbyty a nifer o fân gynlluniau sydd gan ymddiriedolaethau'r GIG, prosiect Rhodfa Bute a Sgwâr Callaghan a ffordd ddeuol yr A55 ar draws sir Fôn.

**Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Local Government and Public Services**

Q13 Kirsty Williams: What representations has the Minister received regarding the provision of additional money to the overall budget for local government and public services? OAQ0264(FIN)

C13 Kirsty Williams: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi eu derbyn am ddarparu arian ychwanegol i'r gyllideb gyffredinol ar gyfer llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus? OAQ0264(FIN)

Sue Essex: My main discussions have been through the agreed channels of the consultative forum on finance.

Sue Essex: Bûm yn trafod fwyaf drwy'r cyfrwng a gytunwyd sef y fforwm ymgynghorol ar gyllid.

**Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth
Economic Development and Transport**

C14 Elin Jones: Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi eu derbyn am y ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer datblygu economaidd a thrafnidiaeth? OAQ0299(FIN)

Q14 Elin Jones: What representations has the Minister received regarding the budget provision for economic development and transport? OAQ0299(FIN)

Sue Essex: I have regular discussions with the Minister for Economic Development and Transport on all aspects of his portfolio.

Sue Essex: Byddaf yn trafod yn gyson bob agwedd ar ei bortffolio â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.

**Cyllideb Cyfalaf ar gyfer Addysg a Dysgu Gydol
Capital Budget for Education and Lifelong Learning**

Q15 Peter Black: Will the Minister make a statement on her plans to supplement the capital budget for education and lifelong learning? OAQ0276(FIN)

C15 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei chynlluniau i ategu'r gyllideb gyfalaf ar gyfer addysg a dysgu gydol oes? OAQ0276(FIN)

Sue Essex: The draft budget published on 27 September proposed an increase in the capital budget of over 3.5 per cent between 2005-06 and 2007-08. This reflects our commitment to improving schools, set out in the 'Wales: A Better Country' target of investing £560 million by 2010.

Sue Essex: Yr oedd y gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 27 Medi yn cynnig cynnydd yn y gyllideb gyfalaf o dros 3.5 y cant rhwng 2005-06 a 2007-08. Mae hyn yn adlewyrchu'n hymrwymiad i wella ysgolion, fel yr eglurwyd yn nharged 'Cymru: Gwlad Well' sef buddsoddi £560 miliwn erbyn 2010.

**Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad
Questions to the Minister for Environment, Planning and Countryside**

**Y Diwydiant Llaeth
The Dairy Industry**

Q11 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on the dairy industry in Wales? OAQ0435(EPC)

C11 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diwydiant llaeth yng Nghymru? OAQ0435(EPC)

The Minister for Environment, Planning and Countryside (Carwyn Jones): I

Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):

recognise that there are significant difficulties facing the Welsh dairy industry, as underlined by the Longslow Dairies closure announcement last week.

Yr wyf yn cydnabod bod anawsterau sylweddol yn wynebu'r diwydiant llaeth yng Nghymru, fel yr amlygwyd yr wythnos diwethaf wrth i Longslow Dairies gyhoeddi ei fod yn cau.

Targedau ac Arian ar gyfer Ailgylchu Targets and Funding for Recycling in Wales

Q12 Peter Black: Will the Minister comment on targets and funding for recycling in Wales? OAQ0414(EPC)

C12 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog sylwadau am dargedau ac arian ar gyfer ailgylchu yng Nghymru? OAQ0414(EPC)

Carwyn Jones: Taken together, local authorities exceeded the 15 per cent target for recycling/composting in 2003-04, by achieving 16 per cent overall. The Assembly Government is working with authorities not achieving that target to help them achieve the next target of 25 per cent in 2006-07. In 2005-06, local authorities will receive specific grant of £26 million.

Carwyn Jones: A'u hystyried yn grynswth, rhagorodd yr awdurdodau lleol ar y targed 15 y cant ar gyfer ailgylchu/compostio drwy gyrraedd 16 y cant yn gyffredinol. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol sydd heb gyrraedd y targed i'w helpu i gyrraedd y targed nesaf o 25 y cant yn 2006-07. Yn 2005-06, bydd yr awdurdodau lleol yn derbyn grant penodol o £26 miliwn.

Glendid Traethau Cymru Cleanliness of Welsh Beaches

Q13 David Melding: Will the Minister make a statement on the cleanliness of Welsh beaches? OAQ0427(EPC)

C13 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lendid traethau Cymru? OAQ0427(EPC)

Carwyn Jones: The quality of bathing waters in Wales is excellent. Last year, all 78 bathing waters monitored by the Environment Agency met mandatory European standards and a record 86 per cent met the more stringent guideline standards. A record 38 blue flag beaches in Wales were announced earlier this year.

Carwyn Jones: Mae ansawdd dyfroedd ymdrochi Cymru yn ardderchog. Y llynedd, roedd pob un o'r 78 lleoliad dŵr ymdrochi a gafodd eu monitro gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn cwrdd â safonau Ewropeaidd gorfodol, ac yr oedd 86 y cant, sydd yn record, yn cwrdd â safonau canllawiau llymach na hynny. Cyhoeddwyd yn gynharach eleni fod 38 traeth yng Nghymru yn derbyn baner las, a hynny'n record.

Cloddiau Ffermydd Farm Hedges

Q14 Peter Black: Will the Minister make a statement on farm hedges? OAQ0413(EPC)

C14 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gloddiau ffermydd? OAQ0413(EPC)

Carwyn Jones: Following consultation on proposed changes to the single payment cross-compliance regime, I recently announced that there will be no changes to the hedge cutting or laying dates, with two exceptions—hedge cutting for arable farmers

Carwyn Jones: Yn dilyn ymgynghori ar y newidiadau a gynigiwyd i'r drefn taliad sengl croes-gydsyniol, cyhoeddais yn ddiweddar na fydd newid ar ddyddiadau torri cloddiau/plygu gwrychoedd, gyda dau eithriad: torri cloddiau yn achos ffermyr tir

and specialist hedge laying events. Both exceptions are subject to compliance with the Wildlife and Countryside Act 1981.

âr a digwyddiadau plygu gwrych arbennig. Mae'r ddau eithriad yn gorfod ufuddhau i Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981.

**Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
Sites of Special Scientific Interest**

C15 Rhodri Glyn Thomas: Will the Minister make a statement on the management of sites of special scientific interest? OAQ0388(EPC)

C15 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y gwaith o reoli safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig? OAQ0388(EPC)

Carwyn Jones: The Countryside Council for Wales is working with landowners to develop site management statements for all SSSIs. These statements detail the management required to conserve and enhance the special interest of each SSSI. In addition, CCW uses a number of mechanisms to secure sympathetic conservation management, for example management agreements.

Carwyn Jones: Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gweithio gyda pherchnogion tir i ddatblygu datganiadau rheoli safle ar gyfer pob safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig. Mae'r datganiadau hyn yn manylu ar y rheoli sy'n ofynnol er mwyn cadw a gwella diddordeb arbennig pob SoDdGA. Hefyd, mae CCGC yn arfer nifer o ddulliau i sicrhau rheoli cadwraeth cydymdeimladol, megis cytundebau rheoli.